Dyddiad cyhoeddi Mehefin 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

# Blocio atodyn atrïaidd chwith y galon er mwyn atal strôc mewn ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd, gan ddefnyddio cathetr

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir trin ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd yn y GIG gan ddefnyddio cathetr i flocio atodyn atrïaidd chwith y galon er mwyn atal strôc. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynghylch arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio ffibriliad atrïaidd na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am

eu gofyn i’ch meddyg i’ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu (yn benodol bod y driniaeth yn gallu achosi cymhlethdodau sy'n peryglu bywyd mewn nifer fach o bobl) a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â phrofiad o reoli ffibriliad atrïaidd a strôc gysylltiedig benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon. Dylai'r tîm gynnwys cardiolegydd ac arbenigwyr priodol eraill. Dylid ystyried cleifion ar gyfer triniaethau eraill a dylid rhoi gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae hon yn driniaeth gymhleth a dim ond meddygon sydd â hyfforddiant penodol a phrofiad perthnasol ddylai ei chyflawni, a hynny mewn ysbytai sydd â chyfleusterau ar gyfer cynnal llawdriniaeth frys ar y galon.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r ddyfais at yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd er mwyn gwirio diogelwch y driniaeth dros gyfnod o amser.

### Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE fod gwahanol ddyfeisiau'n cael eu defnyddio i flocio'r atodyn atrïaidd chwith ac y gallai hyn effeithio ar y canlyniadau clinigol. Hefyd, nododd fod cyffuriau newydd i leihau'r risg o gymhlethdodau ceuladau gwaed sy'n gysylltiedig â ffibriliad atrïaidd yn cael eu datblygu.

## Blocio atodyn atrïaidd chwith y galon er mwyn atal strôc mewn ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd, gan ddefnyddio cathetr

*Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer ffibriliad atrïaidd. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'Achludo’r atodiad atrïaidd chwith drwy’r croen mewn ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd er mwyn atal thrombo-emboledd'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae ffibriliad atrïaidd yn digwydd pan fydd dwy siambr uchaf y galon (atria) yn curo mewn ffordd afreolaidd a chyflym. Gall achosi symptomau megis crychguriad y galon, penysgafnder a diffyg anadl. Mae mwy o risg y bydd pobl â ffibriliad atrïaidd yn datblygu ceuladau gwaed yn y galon. Gall y ceuladau gwaed hyn ffurfio yn yr atodyn atrïaidd chwith (sach bach oddi ar yr atriwm chwith). Gall ceuladau gwaed dorri i ffwrdd o'r atodyn atrïaidd chwith, teithio i unrhyw ran o'r cylchrediad a blocio pibell waed leol (thrombo-emboledd).

Rhoddir meddyginiaethau i deneuo'r gwaed yn aml er mwyn lleihau'r risg o strôc thrombo-embolaidd. Gall llawdriniaeth i osod dyfais arbennig sy’n blocio'r atodyn atrïaidd chwith fod yn opsiwn triniaeth arall.

Yn y driniaeth hon bydd y claf o dan anesthetig cyffredinol fel arfer. Gosodir tiwb tenau (cathetr) i mewn i wythïen yn rhan uchaf y goes (gwythïen y forddwyd) a chaiff ei lywio i mewn i'r atriwm chwith. Symudir dyfais arbennig i fyny'r cathetr i’w lle yng ngheg yr atodyn atrïaidd chwith. Mae’r ddyfais hon yn atal unrhyw geuladau gwaed rhag mynd i mewn i’r llif gwaed. Defnyddir techneg ddelweddu a elwir yn ecocardiograffeg trawsoesoffagaidd er mwyn cadarnhau pa mor dda mae'r ddyfais yn gweithio a'i safle yn yr atodyn atrïaidd chwith.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod hon yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon? Beth yw'r manteision?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 707 o gleifion, digwyddodd strociau (o unrhyw fath) ar gyfradd o 2.3 fesul 100 o flynyddoedd-cleifion mewn cleifion a gafodd warfarin a 3.2 fesul 100 o flynyddoedd-cleifion mewn cleifion a gafodd y driniaeth. O'r 463 o gleifion a ddewiswyd ar gyfer y driniaeth, blociwyd yr atodyn atrïaidd chwith yn llwyddiannus mewn 408.

Nododd astudiaeth o 111 o gleifion fod dau glaf wedi cael strôc (un ar ôl 173 o ddiwrnodau a'r llall ar ôl 215 o ddiwrnodau). Ni ddangosodd yr ecocardiograffeg trawsoesoffagaidd a gynhaliwyd mis a chwe mis ar ôl y driniaeth fod unrhyw broblemau â'r ddyfais yn y naill glaf na'r llall. Cafodd dau glaf bwl o isgemia dros dro (strôc fach).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y dylid mesur pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn ôl canlyniadau allweddol megis rhyddid rhag strociau a chymhlethdodau eraill yn ymwneud â'r ymennydd a'r galon.

### Risgiau a phroblemau posibl

Cofnodwyd achos o waed yn cronni o amgylch y galon mewn un allan o 111 o gleifion mewn un astudiaeth. Bu'n rhaid cynnal llawdriniaeth frys ar y galon o fewn pedair awr i gael y driniaeth. Datblygodd y claf thrombosis gwythïen-ddofn yn hwyrach a bu farw 27 diwrnod ar ôl y driniaeth.

Mewn astudiaeth o 73 o gleifion, roedd angen llawdriniaeth ar y galon ar un claf oherwydd bod y ddyfais yn rhydd. Bu farw un claf yn dilyn ataliad ar y galon 30 munud ar ôl y driniaeth. Nodwyd mai achos y farwolaeth oedd emboleiddiad yn sgîl y ddyfais (y ddyfais yn symud o'i lle ac yn mynd i mewn i'r cylchrediad).

Yn yr astudiaeth o 707 o gleifion, nodwyd emboleiddiad yn sgîl y ddyfais mewn tri allan o 463 o gleifion a gafodd y driniaeth: canfuwyd un yn ystod y driniaeth a dau drwy waith delweddu ar ôl 45 diwrnod.

Yn yr un astudiaeth, bu'n rhaid draenio allrediad pericardiaidd (gwaed yn dianc i mewn i'r sach o amgylch y galon) mewn 22 o gleifion. Nodwyd allrediad pericardiaidd nad oedd angen ei ddraenio mewn wyth claf; a nodwyd curiad calon afreolaidd yn gysylltiedig â'r driniaeth mewn un claf a gafodd y driniaeth.

Nododd astudiaeth arall y bu'n rhaid cynnal llawdriniaeth i dynnu darn o wifren ddosbarthu a oedd wedi torri mewn un allan o 75 o gleifion. Yn yr astudiaeth o 111 o gleifion, cafodd un claf anaf i rydweli'r forddwyd ac un arall geulad gwaed yn yr atriwm chwith yn ystod y driniaeth, ac felly ni osodwyd y ddyfais.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod llawdriniaeth frys i gael gafael ar ddyfais a osodwyd yn anghywir, a 'thwll parhaus yn y galon' ymhlith y cymhlethdodau eraill posibl.

## Rhagor o wybodaeth am ffibriliad atrïaidd

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ffibriliad atrïaidd, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'achludo'r atodiad atrïaidd chwith drwy'r croen mewn ffibriliad atrïaidd nad yw'n falfaidd er mwyn atal thrombo-emboledd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG222*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8156-4
N2265 1P June 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE